



Y PROSIECT

## ADNEWYDDU JIG AMREDIAD PELL

Y CLEIENT

## AUK OPERATIONS LIMITED

GWERTH Y CONTRACT

£1.2M

## Y NOD

Dewiswyd Hollingsworth Ellery i wneud y gwaith adnewyddu ar bum jig amrediad pell sy'n cynhyrchu'r adenydd ar gyfer yr awyren A340; un o gonglfeini'r busnes.

Nid oedd y jigiau'n cynhyrchu adenydd wrth iddynt gael eu hadnewyddu felly blaenoriaeth Hollingsworth Ellery (HE) oedd cwblhau'n gyflym er mwyn cyflawni'r amcan sylfaenol.

Y rhaglen orau a gynigiwyd ar gyfer y prosiect yma oedd 10 wythnos. Heriwyd HE i gyflawni'r rhaglen mewn 8 wythnos

Yn ystod adnewyddiad jig 2, roedd Jig 1 a Jig 3 yn fyw ac wrthi'n cynhyrchu adenydd.

Roedd y gwaith yn cynnwys glanhau ac ailbeintio, adnewyddu'r pŵer a'r goleuadau, glanhau ac adnewyddu'r pren sy'n ffurfio llwyfannau gwaith y jig, fflachio mannau i gael gwared â thyllau sy'n casglu naddion ac ailosod grisiau GRP.





Hollingsworth Group Ltd  
St. Ives Way  
Engineer Park  
Sandycroft  
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

[www.hollingsworthgroup.co.uk](http://www.hollingsworthgroup.co.uk)

## Y DULL

Codwyd bariau sgaffald ar dair lefel ar berimedr cyfan y prosiect. Clymwyd sgrin monarflex ar fariâu'r sgaffald i wahanu Jig 2 oddi wrth y manau byw i gyd oddi amgylch.

Roedd y rhaglen adeiladu'n diffinio dull o fwrw ymlaen gyda'r gwaith gan weithio o dop y jig i lawr at lawr y ffatri.

Mae gan y jig loriau y gellir eu haddasu i gyfateb â safle'r adenydd. Y sialens fawr oedd sicrhau nad oedd unrhyw risg ar unrhyw amser y gallai'r gweithlu syrthio. Amddiffyniad ar yr ymylon a sgaffaldau mynediad cludadwy yw'r allwedd i orchfygu hynny.

## Y CANLYNIADAU

Manteisiodd AUK ar y cyfle i adnewyddu'r craeniau uwchben yn ystod ein gwaith ar y jig. Daeth y gweithgareddau yma'n rhan o gyfrifoldeb HE yn ystod y prosiect fel y Prif Contractwr heb effeithio ar y rhaglen ac heb gost ychwanegol.

Datblygwyd manyleb newydd ar gyfer gorchudd y llawr sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae lefelau'r goleuo wedi eu gwella o'u cymharu gyda'r jig arall a adnewyddwyd yn ddiweddar.

Ni chafodd cynhyrchiad AUK unrhyw angyfleuster ac ni chafodd ei effeithio gan weithgareddau HE ar unrhyw bwynt yn ystod y prosiect

Dechreuodd y jig gynhyrchu eto i AUK 8 wythnos yn union o gychwyniad y gwaith yn unol â'r rhaglen adeiladu.

## CRYNODEB

Canmolodd arweinydd busnes AUK, Leigh Warburton, safon y gwaith ac ymlyniad HE at y rhaglen .

Pan gwblhawyd y contract, cytunwyd a llofnodwyd y cyfrif terfynol.